Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bod Alaw**
**Ffordd Abergele**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 7ST**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JWneu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bod Alaw yn nhref Bae Colwyn ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Conwy. Mae'n gwasanaethu'r dref, yn ogystal â'r ardal wledig gyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Oddeutu 63**%** o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin, yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 317o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan 8athro amser llawn ac 7 rhan-amser.

Mae oddeutu 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 22%o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n agos â chanrannau Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Fe benodwyd y pennaeth ym mis Medi 2011.Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bod Alaw yn 2015-2016 yn £3,421. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £9,616 a'r lleiafswm yw £3,227. Mae Ysgol Bod Alaw yn y 52 safle allan o'r 57 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda
- yr athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, yn gyffredinol, yn bodloni ag anghenion rhan fwyaf y disgyblion
- safon yr addysgu yn gyson dda
- ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion

Fodd bynnag:

- dros gyfnod, nid yw safonau cyrhaeddiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn cymharu'n dda â safonau mewn ysgolion tebyg
- nid yw rhan fwyaf  o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth a'r uwch dim rheoli yn darparu arweinyddiaeth gadarn sydd â ffocws clir ar godi safonau
- holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- aelodau'r corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn rheolaidd ac yn effeithiol am ei pherfformiad
- cynllun gwella'r ysgol yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ar gyfer sefydlu a datblygu prosesau newydd
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Parhau i wella safonau iaith a mathemateg ar draws yr ysgol, a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion yn cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm

A3 Gosod targedau mwy heriol i ddisgyblion a chryfhau sylwadau marcio athrawon i sicrhau bod disgyblion yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn amrywio. Fodd bynnag, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er bod y Gymraeg yn iaith newydd i'r lleiafrif, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob un disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau unigol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn sgwrsio gydag oedolion neu'n trafod eu gwaith. Maent yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol a hyderus mewn trafodaethau dosbarth. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus tra byddant wrth eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd diddorol. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n hyderus ar drafodaethau gan ymateb drwy ddefnyddio geirfa amrywiol sy'n berthnasol i'r testun. Wrth ddwyn i gof dysgu blaenorol am y synhwyrau, sef gwaith tymor yr hydref, maent yn trafod y gwaith yn hyderus a gwybodus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus ddwyieithog.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen ac y dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae llawer yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y Cyfnod, mae llawer yn darllen yn rhugl ac ystyrlon gyda mynegiant synhwyrol. Gall llawer drafod eu llyfrau'n hyderus a sgwrsio am eu hoff lyfrau gan enwi eu hoff awdur.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod prif elfennau'r storïau a'r llyfrau maent yn eu hoffi, yn ogystal â'u hoff awduron. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen 'uwch' yn briodol drwy ragfynegi, egluro, cwestiynu a chrynhoi gwybodaeth yn effeithiol. Defnyddiant eu medrau'n bwrpasol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion o oedran ifanc iawn, yn dangos dealltwriaeth dda o atalnodi ac yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau amrywiol a chymariaethau diddorol i gyfoethogi eu gwaith. Mae llawer yn creu gwaith estynedig o safon dda wrth ysgrifennu stori, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu am eu hoff archarwyr.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn atalnodi ac yn paragraffu eu gwaith yn addas. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen yn dda ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau wrth ymwneud ag arian a ffracsiynau. Mae’r rhan fwyaf yn gallu cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio cymesuredd i greu tariannau archarwyr a chreu amserlen ar gyfer amser bwydo anifeiliaid y sw. Mae medrau mathemateg pen llawer yn datblygu’n dda.

Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd ac yn cymhwyso eu medrau yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ffracsiynau, canrannau a degolion. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau. Mae llawer yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed, er enghraifft, wrth fesur onglau ac adnabod a nodi onglau sgwâr, llem ac aflem. Maent yn dadansoddi data yn hyderus gyda’r mwyafrif yn gallu cynhyrchu graffiau priodol yn annibynnol, er enghraifft i ddangos nifer y creaduriaid sydd yng ngardd yr ysgol.

Dros gyfnod, nid yw safonau cyrhaeddiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn cymharu’n dda â safonau mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn gyson yn is na’r canolrif mewn medrau iaith a mathemateg o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau uwch mewn iaith a mathemateg wedi amrywio ac yn yr 50% uwch mewn tair allan o’r pedair blynedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, ar wahân i un flwyddyn, wedi bod yn gyson o dan y canolrif. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn anghyson ac wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 50% uwch a’r 25% isaf.

Mae perfformiad ar y lefel uwch mewn Cymraeg wedi bod yn yr 50% uwch mewn tair allan o’r pedair blynedd ond mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson o dan y canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae’r niferoedd sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn fach, felly mae unrhyw gymhariaeth synhwyrol rhyngddynt a disgyblion eraill yn annibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae safonau ymddygiad yn uchel ac mae bron pob disgybl yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol gyda'i gilydd.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad da yn eu gwaith. Mae gallu disgyblion i werthuso'u gwaith eu hunain yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol, gyda mwyafrif yn dechrau dangos ymwybyddiaeth glir o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, yn enwedig mewn iaith.

Trwy weithdrefnau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco, mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd da sydd iddynt fynegi eu safbwyntiau a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn falch o'u cyfraniadau, er enghraifft wrth awgrymu bod yr ysgol yn darparu blychau personol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gadw eu heiddo.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn falch o'u hymdrechion i godi arian er budd elusennau fel Plant Mewn Angen. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu yn y capeli a'r eglwysi lleol drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau a chyngherddau.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau presenoldeb, ar wahân i 2015, wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r cynllunio manwl a chynhwysfawr yn diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd i sicrhau cyfleoedd cyson i atgyfnerthu'r medrau hyn a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau priodol â mannau diddorol, a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol i drafod materion penodol; er enghraifft, ymweliadau â sw Bae Colwyn, Castell Penrhyn a choedlan Nant y Coed. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol, fel y clwb chwaraeon, yn cyfrannu'n dda at gyfoethogi profiadau'r disgyblion a chyfrannu at eu lles.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ac yn annog y disgyblion i'w defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn barhaus. Mae'r dimensiwn Cymreig, gan gynnwys hyrwyddo gwybodaeth am ddiwylliant a hanes Cymru, yn treiddio trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. Cyfoethogir y profiadau ymhellach gan ymweliadau beirdd ac artistiaid preswyl i'r ysgol, ynghyd â chyfleoedd i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau ac astudio'r amgylchedd lleol a hanes Cymru.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae aelodau'r pwyllgor eco, er enghraifft, yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth disgyblion eraill am bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n sbarduno'r disgyblion i weithio'n gydwybodol mewn grwpiau ac yn annibynnol. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog yn llwyddiannus i ddefnyddio eu medrau meddwl yn gyson.

Mae holl aelodau'r staff yn modelu iaith yn dda, ac yn annog y disgyblion i ddatblygu eu medrau llefaredd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol. Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar iawn i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn rhannu nod y gwersi a meini prawf llwyddiant yn ofalus gyda'r disgyblion ar ddechrau pob gwers. Fe adolygir y gwaith yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i'r disgyblion yn ystod y gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond anghyson yw'r sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain ac, ar adegau, gwaith eu cyfoedion yn erbyn y meini prawf llwyddiant a osodir.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth honno i osod targedau digon heriol ar gyfer unigolion i'w galluogi i symud ymlaen yn effeithiol i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd cadarn y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae ystod eang o glybiau allgyrsiol yn cyfrannu'n effeithiol at hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy'r gwersi dyddiol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, fel gofalu am yr amgylchedd ac ystyried pobl sy'n llai ffodus na nhw, yn cael ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn trefnu cymorth yn briodol, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson. Mae'r staff yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac yn adlewyrchu barn y rhieni pan yn eu hadolygu.

Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol, fel therapyddion iaith a chymorth y grŵp maethu, ar gyfer disgyblion sydd ag angen cymorth penodol. Caiff y ddarpariaeth hon effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a gofalgar, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Caiff pob disgybl hawl gyfartal i holl feysydd y ddarpariaeth a chânt eu hannog i gyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol. Mae'r safle a'r adeilad yn gwbl hygyrch ac mae gwerthoedd ac amcanion yr ysgol yn arwain at werthfawrogi a chydnabod amrywiaeth yn effeithiol.

Ceir ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd chwarae allanol, a chaiff y rhain eu defnyddio'n briodol. Gwneir defnydd cynhwysfawr o'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae arddangosiadau symbylol a deniadol o gyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhain yn creu amgylchedd dysgu diddorol ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Maent hefyd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad a'r tir yn dda ac mae'r ysgol yn defnyddio ei safle'n briodol. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sydd â ffocws clir ar ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a chodi safonau. Mae ganddi weledigaeth bwrpasol i ddatblygu rôl yr uwch dîm rheoli sydd ond wedi'i sefydlu gyda'r aelodau presennol yn

ddiweddar iawn. Maent yn barod yn cydweithio'n llwyddiannus i greu cymuned ddysgu effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod pob strategaeth a chynllun a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion cydwybodol yn cydweithio'n agos fel tîm. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfarfodydd staff pwrpasol a pherthnasol yn cael eu cynnal yn wythnosol gydag amserlen gynhwysfawr ar gyfer athrawon, cymorthyddion a'r uwch dîm rheoli. Mae'r rhain yn gyfle i fonitro cynnydd a safonau gwaith disgyblion yn rheolaidd.

Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle ac yn cynnwys targedau perthnasol i'r staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan, ynghyd ag amcanion mwy personol i ddatblygu agweddau penodol o waith yr athrawon ymhellach. Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel datblygu uwch fedrau darllen disgyblion a'u hannog i ddefnyddio'u medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn ymweld yn rheolaidd â dosbarthiadau ac yn arsylwi'n rheolaidd ar faterion ysgol gyfan. Yn dilyn yr ymweliadau adeiladol hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu a blaenoriaethu gwelliannau yn datblygu'n gadarn ac maent yn medru dwyn yr ysgol i gyfrif yn rheolaidd ac yn effeithiol am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

O dan arweinyddiaeth y pennaeth a'r uwch dîm rheoli, mae diwylliant hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda. Mae trefniadau hunanarfarnu bellach yn rhan bwysig o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu cyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a gwella medrau darllen.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r ysgol yn glir a'r mannau sydd angen eu datblygu ymhellach. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r barnau yn yr adroddiad, sef dadansoddi data, craffu ar waith disgyblion, monitro'r addysgu, a chasglu barn rhieni a disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod llywodraethwyr yn treulio amser yn yr ysgol yn arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, sgwrsio â disgyblion ac arwain sesiynau hyfforddiant. Mae gan yr ymweliadau hyn ffocws da ar safonau ac mae'r uwch dîm rheoli'n defnyddio deilliannau'r arsylwadau'n ofalus fel rhan o'r broses hunanarfarnu.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ar gyfer sefydlu a datblygu prosesau newydd. Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu manwl, a meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion a chostau perthnasol. Mae'r uwch dîm rheoli yn monitro effaith blaenoriaethau'r cynllun yn drylwyr trwy ddilyn amserlen fonitro briodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy’n cyfrannu’n dda at y ddarpariaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol yn weithgar iawn ac maent wedi codi symiau sylweddol o arian at waith yr ysgol. Er enghraifft, mae codi arian ar gyfer prynu mwy o adnoddau TGCh wedi arwain at welliant mewn safonau cyfrifiadurol y disgyblion. Trwy brynu hysbysfwrdd allanol i’r ysgol, mae’n haws rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau ac ati gyda’r rheini.

Mae’r ysgol wedi datblygu partneriaeth fasnach effeithiol, ac wedi derbyn nawdd gan fusnesau lleol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion ymarfer eu medrau rhifedd a llythrennedd mewn cyd-destun masnachol.

Trwy gadw cysylltiad agos a rheolaidd gyda’r cylch meithrin lleol, mae’r ysgol yn hwyluso trefniadau derbyn disgyblion newydd. Yn yr un modd, mae’r trefniadau pontio effeithiol sy’n bodoli gyda’r ysgol uwchradd yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu haddysg.

Trwy gydweithio’n llwyddiannus gyda staff ysgolion eraill y clwstwr i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, mae’r ysgol yn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn eu hasesiadau.

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn gydag amryw o swyddogion yr awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae lefel staffio’r ysgol yn ateb gofynion y cwricwlwm ac yn cwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae’r pennaeth yn effeithiol wrth adnabod cymhwysedd, cryfder a diddordeb athrawon unigol ac, o ganlyniad, mae’n dyrannu cyfrifoldebau yn bwrpasol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ac mae hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella’r ysgol.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae diwylliant iach o gydweithio llwyddiannus o fewn yr ysgol a rhwng ysgolion y clwstwr yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gyflawniad disgyblion, er enghraifft codi safonau darllen ac ysgrifennu.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn caniatáu i athrawon gydweithio mewn timau i gynllunio.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda. Maent yn gwneud penderfyniadau ariannu effeithlon i ateb anghenion yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion yr holl ddisgyblion. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arian o ffynonellau eraill i wella’r ardd a’r ardal allanol a phrynu adnoddau technoleg gwybodaeth.

Mae’r ysgol yn defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn fedrus i roi mwy o gynhaliaeth i ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn cinio am ddim.  Mae’r grant yn bennaf yn ariannu cymorthyddion ychwanegol i gefnogi grwpiau ac unigolion ac mae’n cael effaith gadarnhaol ar fedrau sylfaenol mathemateg a lles y disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622114 - Ysgol Bod Alaw**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 331 |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.9 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 38 | 46 | 33 | 40 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 86.8 | 63.0 | 87.9 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 46 | 33 | 40 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.5 | 65.2 | 87.9 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.6 | 32.6 | 42.4 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 46 | 33 | 40 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.1 | 69.6 | 90.9 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.6 | 26.1 | 48.5 | 45.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 46 | 33 | 40 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.1 | 95.7 | 97.0 | 97.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.5 | 56.5 | 66.7 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622114 - Ysgol Bod Alaw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 331 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 39 | 40 | 40 | 46 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 97.4 | 92.5 | 85.0 | 87.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 39 | 40 | 40 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.9 | 100.0 | 90.0 | 89.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 30.0 | 17.5 | 34.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 39 | 40 | 40 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.2 | 95.0 | 90.0 | 87.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.6 | 27.5 | 22.5 | 43.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 39 | 40 | 40 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.4 | 92.5 | 92.5 | 93.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.5 | 30.0 | 27.5 | 39.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 39 | 40 | 40 | 46 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.4 | 97.5 | 92.5 | 87.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.8 | 30.0 | 17.5 | 39.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfansŵm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 99 | 97 | 2 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 82 | 14 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 85% | 15% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 99 | 93 | 6 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 98 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 96 | 2 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 96 | 92 | 4 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 98 | 96 | 2 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 90 | 8 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 96 | 77 | 19 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 97 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 95 | 77 | 18 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 81% | 19% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 85 | 14 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 54 | 15 | 21 | 14 | 4 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 28% | 39% | 26% | 7% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 55 | 25 | 28 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 45% | 51% | 2% | 2% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 54 | 26 | 26 | 2 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 48% | 48% | 4% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 52 | 16 | 17 | 16 | 3 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 31% | 33% | 31% | 6% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 48 | 10 | 34 | 3 | 1 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 21% | 71% | 6% | 2% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 50 | 13 | 20 | 11 | 6 | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 26% | 40% | 22% | 12% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 51 | 18 | 19 | 8 | 6 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 35% | 37% | 16% | 12% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 45 | 4 | 19 | 12 | 10 | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 9% | 42% | 27% | 22% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 50 | 16 | 22 | 4 | 8 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 32% | 44% | 8% | 16% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 50 | 23 | 23 | 2 | 2 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 46% | 4% | 4% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 53 | 24 | 25 | 3 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 45% | 47% | 6% | 2% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 43 | 11 | 20 | 4 | 8 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 26% | 47% | 9% | 19% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 55 | 12 | 20 | 16 | 7 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 22% | 36% | 29% | 13% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 55 | 23 | 14 | 13 | 5 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 42% | 25% | 24% | 9% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 51 | 21 | 19 | 6 | 5 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 41% | 37% | 12% | 10% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 49 | 11 | 28 | 7 | 3 | 6 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 22% | 57% | 14% | 6% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 38 | 9 | 18 | 7 | 4 | 16 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 24% | 47% | 18% | 11% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 53 | 16 | 20 | 12 | 5 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 30% | 38% | 23% | 9% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 47 | 10 | 11 | 12 | 14 | 8 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 21% | 23% | 26% | 30% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Emyr Wyn Davies Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Delyth Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.